# Adolygiad o drefniadau staffio Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

Rhagfyr 2013

## Y Bwrdd Taliadau

**Y Gwir Anrhydeddus George Reid (Cadeirydd - hyd at fis Medi 2013)**
**Sandy Blair CBE (Cadeirydd - o fis Hydref 2013)**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**

Mae bywgraffiadau aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Carys Evans,** Clerc (hyd at fis Awst 2013)
**Al Davies,** Dirprwy Glerc (hyd at fis Awst 2013)
**Gareth Price**, Clerc (o fis Awst 2013)
**Daniel Collier**, Dirprwy Glerc (o fis Awst 2013)
**Lisa Hatcher**, Cymorth Tîm

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliadcymru.org
Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: Taliadau@cymru.gov.uk

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 4

Y Bwrdd Taliadau ..... 6

Lwfans staffio ..... 10

Methodoleg a Thystiolaeth ..... 16

Cynigion a Phenderfyniadau ..... 28

Tua'r Pumed Cynulliad ..... 34

Uwch Gynghorwr i Aelod Cynulliad ..... 36

Cylch Gwaith ac Aelodau'r Bwrdd Taliadau ..... 38

# Cyflwyniad

Mae gan y gwleidyddion a etholir i unrhyw ddeddfwrfa rôl gymhleth i’w chyflawni. Maent yn craffu ar bolisïau, cyllid a deddfwriaeth y llywodraeth, ac mae angen cymorth arnynt i allu gwneud hynny’n dda. Mewn unrhyw gorff seneddol llwyddiannus, bydd y cymorth hwnnw’n cynnwys cael staff medrus o safon uchel i’w cefnogi.

Mae hyn yn bwysicach fyth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, o ystyried y nifer gymharol fach o Aelodau etholedig sydd ganddo, sy’n ymgymryd ag amrywiaeth eang o gyfrifoldebau.

Mae’n bwysig inni sicrhau ein bod yn cynnig y pecyn cywir i ddenu a chadw staff o safon uchel. Mae’n hollbwysig hefyd i’r pecyn hwnnw gael ei adolygu’n barhaus er mwyn sicrhau y caiff amgylchiadau sy’n newid, yn y Cynulliad a’r byd ehangach, eu hadlewyrchu’n briodol.

Mae’r adroddiad hwn yn nodi’n fanwl y gwaith y mae’r Bwrdd wedi’i wneud i sicrhau y caiff staff cymorth Aelodau’r Cynulliad eu trin yn deg, gan hefyd amlinellu rhai meysydd i’w hystyried yn y dyfodol. Yn benodol, mae’r Bwrdd o’r farn bod mwy o gyfle i Aelodau’r Cynulliad ddefnyddio dull mwy systematig wrth adolygu perfformiad eu staff, ac y gellid cynnig mwy o gymorth er mwyn sicrhau gwaith polisi a gwaith deddfwriaethol o safon uchel. Nid ydym am orfodi’r Aelodau i ddefnyddio dulliau penodol i ymdrin â’r materion hyn, a byddwn yn parhau i ymgynghori â’r holl randdeiliaid yn eu cylch.

Roedd y staff cymorth y gwnaethom gyfarfod â hwy yn ystod ein hadolygiad yn fedrus, yn ymroddedig ac yn ddawnus, ac maent yn gwerthfawrogi’r gwaith y maent yn ei wneud i’r Cynulliad, ei Aelodau ac, yn bennaf oll, pobl Cymru. Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o’u hamser i gyfrannu at ein hadolygiad.

**Sandy Blair CBE**

**Cadeirydd**

# Y Bwrdd Taliadau

## Sefydlu a Phenodi

1. Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Mesur), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010 ac fe'i penodwyd drwy weithdrefn penodiadau cyhoeddus dryloyw a gynhaliwyd yn ystod yr haf yn 2010.

2. Mae bywgraffiadau pob un o aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad B. Mae aelodau'r Bwrdd Taliadau wedi'u penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chaniateir iddynt fod yn aelodau o'r Bwrdd am fwy na dau dymor penodi. Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad y penodiadau yn ffurfiol ar 21 Medi 2010, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2010.

3. Oherwydd salwch, ymddeolodd Syr George Reid o'i rôl fel Cadeirydd y Bwrdd yn fuan ar ôl i'r Bwrdd ddod i'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn. Mae ei stiwardiaeth yn ystod y gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, ac adroddiadau blaenorol eraill, wedi bod yn hynod bwysig.

## Swyddogaethau ac Amcanion

4. Ein swyddogaethau, fel y nodir yn adran 3 o'r Mesur, yw penderfynu ar lefel taliadau a system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, sy'n eu galluogi i gyflawni eu swyddi.

5. Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid inni eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:

- darparu lefel o dâl i Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau i Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau; a
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

## Gofynion statudol

6. Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol inni adolygu'r ffordd y gweithredir ein penderfyniadau a'u heffeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad yr ydym yn ei feithrin wrth roi ein Penderfyniadau ar waith,

unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni.

7. Er ein bod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nad ydym yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad na Chomisiwn y Cynulliad, mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol inni, wrth arfer ein swyddogaethau, ymgynghori â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hynny'n cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, yr undebau llafur perthnasol ac unrhyw un arall sy'n briodol yn ein barn ni.

8. Mae Adran 2 o'r Mesur yn caniatáu inni gyfarfod yn breifat os bydd hynny'n briodol yn ein barn ni, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol inni ymddwyn mewn modd tryloyw a chyhoeddi ar wefan y Cynulliad y cyfryw wybodaeth a fydd yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau.

## Egwyddorion

9. Mae cyfres o egwyddorion clir wedi bod yn sylfaen i'n holl waith hyd yma:

- dylai cymorth ariannol a thaliadau i Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith yr Aelodau;
- rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system o gymorth ariannol a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

10. Ar bob cam o'n gwaith, rydym wedi targedu'r system o daliadau a lwfansau fel ei bod yn cefnogi dibenion strategol y Cynulliad fel deddfwrfa; yn benodol i ddeddfu ar gyfer Cymru, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, a chynrychioli pobl Cymru.

## Lwfans staffio i Aelodau'r Cynulliad

11. Mae ein cylch gwaith yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried pob agwedd ar yr adnoddau y mae Aelodau'n eu defnyddio i wneud eu gwaith. Un o'r elfennau allweddol yn hyn o beth yw'r lwfans sydd ar gael iddynt gyflogi staff. Lluniwyd ein Penderfyniad cyntaf ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad ym mis Mawrth 2011.[1] Lluniwyd adroddiad i gyd-fynd â'r Penderfyniad, sef *Addas i'r Diben*, sy'n egluro ein hegwyddorion, ein methodoleg, yr ymgynghoriad a'r gwaith ymchwil a wnaed gennym, a'n penderfyniadau ar y system briodol o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.[2] Roedd hynny'n cynnwys penderfyniadau ynghylch

[1] *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau, Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2011*
[2] *Addas i'r Diben, Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2011*

staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau a recriwtio, a chymorth staffio canolog i grwpiau'r pleidiau.

## Ein Hadolygiad

12. Gwnaethom ymrwymiad i adolygu ein Penderfyniad ynghylch staff yr Aelodau erbyn mis Ebrill 2013, a fyddai'n rhoi amser inni ystyried sut y gallai gwaith yr Aelodau ac, o ganlyniad, eu staff newid o ganlyniad i'r newid i bwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

13. Mae'r dystiolaeth a gafwyd gennym wedi ein galluogi i gael syniad clir o ddibenion strategol y Cynulliad a'r ffordd y mae'r Aelodau yn cyflawni'r dibenion hynny, ac mae hynny wedi bod yn sylfaen i'n holl weithgareddau hyd yma. Rydym wedi rhoi system o daliadau ar waith sy'n targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r dibenion hyn a phob agwedd ar rôl Aelodau'r Cynulliad.

14. Rhwng mis Hydref 2012 a mis Mehefin 2013, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori helaeth gennym â'r nod o adolygu:

- y trefniadau o ran talu Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad; a
- y fframwaith staffio cyffredinol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

15. Hyd yn hyn, mae ein holl benderfyniadau ynghylch cyflogau wedi'u seilio ar yr egwyddor gyffredinol ganlynol, a fabwysiadwyd hefyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, sef y dylai cyflogau adlewyrchu lefelau cyfrifoldeb yn hytrach na'r llwyth gwaith.[3] Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r un egwyddor yn ein gwaith ar gyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.

16. Cyhoeddwyd ein penderfyniadau yn y maes hwn ym mis Ebrill a mis Mehefin 2013, a chafwyd crynodeb ohonynt yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012-13.[4] Diben y ddogfen hon yw sicrhau bod y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniadau hynny ar gael fel y gellir ei chynnwys yn ein hystyriaethau yn y dyfodol.

17. Rydym bob amser wedi ceisio gwneud pethau ar y cyd ag Aelodau a'u staff, yn hytrach na'u gorfodi i wneud pethau. Felly, rydym wedi ceisio bod yn agored ac yn dryloyw drwy gydol y broses ac rydym wedi rhannu gwybodaeth ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ar bob cam, naill ai drwy Arweinwyr y Pleidiau neu drwy grwpiau sy'n cynrychioli Aelodau a'u staff. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn llywio'r trafodaethau ynghylch Penderfyniad 2014 a'r trefniadau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

[3] *Tudalen 4, Adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion Rhif 48: Review of Parliamentary Pay and Allowances, Volume I, 2001*

[4] *Adroddiad Blynyddol Bwrdd Taliadau Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012-13, Gorffennaf 2013*

# Lwfans staffio

## Penderfyniad 2011

### Lwfansau staffio ar gyfer Aelodau unigol

18. Rhoddwyd y trefniadau staffio gwreiddiol ar waith pan oedd y Cynulliad yn gorff corfforaethol. Mae diben y sefydliad a gwaith ei Aelodau wedi datblygu'n fawr a'r Cynulliad bellach yn ddeddfwrfa.

19. Ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad yn 2007, gallai Aelodau gyflogi hyd at 2.5 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn. Ym mis Gorffennaf 2007, cynyddodd Comisiwn y Cynulliad hynny i 3 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, gydag un aelod o staff ar bob un o'r tri band cyflog gwahanol. Cynyddwyd y lwfans staffio yn unol â chyfrifoldebau'r Cynulliad a'i Aelodau yn sgîl Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

20. Roedd y Penderfyniad a wnaed gennym yn 2011 yn galluogi pob un o Aelodau'r Cynulliad i gael lwfans staffio a oedd yn galluogi Aelodau unigol i gyflogi 3 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn a thalu costau staffio *ad hoc* fel teithio, goramser a chomisiynu gwaith ymchwil allanol. Rhwng mis Mai 2011 a mis Ebrill 2013, y lwfans oedd £89,000 y flwyddyn. Ar gyfer 2012-13, costiodd y lwfans gyfanswm o £6.6 miliwn. Rhoddwyd y graddfeydd cyflog canlynol ar waith fel rhan o gam cyntaf ein gwaith yn 2011:

**Ffigur 1: Cyflogau staff cymorth rhwng mis Mai 2011 a mis Ebrill 2013**

| | Pwynt 1 | Pwynt 2 | Pwynt 3 | Pwynt 4 | Pwynt 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth grŵp ychwanegol | £30,404 | £31,961 | £33,600 | £35,323 | £37,138 |
| Band 1 | £22,594 | £24,620 | £26,833 | £29,249 | £31,890 |
| Band 2 | £19,296 | £21,225 | £23,353 | £25,698 | £28,287 |
| Band 3 | £17,472 | £18,826 | £20,285 | £21,861 | £23,563 |

21. Wrth benderfynu ar y graddfeydd cyflog hyn, gwnaethom gytuno i gynyddu'r pwyntiau cyflog o fis Ebrill 2011, yn unol â'r newid o 2.3% yn y Mynegai Cyfartalog Enillion (fel ym mis Rhagfyr 2010), a chynnydd pellach o £550 o 6 Mai 2011, sy'n adlewyrchu'r ffaith i daliadau bonws, yr arferwyd eu rhoi yn ôl disgresiwn, gael eu cynnwys mewn cyflogau. Gyda'i gilydd, rhoddodd y ddwy elfen hyn gynnydd o rhwng 4% a 6%, yn dibynnu ar y raddfa gyflog a'r pwynt cyflog. Cafodd graddfeydd cyflog eu rhewi ar y lefelau hyn hyd at fis Ebrill 2013. Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael yn ofalus, gan

gynnwys meincnodi rolau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn erbyn cymaryddion rhesymol, ac ystyried cyd-destunnau economaidd Cymru a'r DU yn ehangach.

22. Wrth wneud ein Penderfyniad ar gyfer 2011, cymharwyd hefyd y trefniadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ac Aelodau deddfwrfeydd eraill y DU. Ym marn y Bwrdd, gan fod y Cynulliad yn fach o ran maint, mae'n rhaid i'r Aelodau amldasgio'n barhaus, ac mae angen amrywiaeth eang o gymorth arnynt gan eu staff o ganlyniad. Ar ôl ystyried lefel y cymorth staffio sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad, roeddem yn fodlon ei bod yn briodol gwario mwy o arian yn y maes hwn nag, er enghraifft, yn Senedd yr Alban.

### Cymorth i grwpiau

23. Yn y Cynulliad, mae cyllid ar gael i grwpiau'r pleidiau hefyd fel y gallant gyflogi staff. Yn y Trydydd Cynulliad, roedd gan grwpiau o dri neu fwy o Aelodau Cynulliad yr hawl i gyflogi aelodau ychwanegol o staff i'w helpu yn eu rôl fel grŵp yn y Cynulliad. Defnyddiwyd fformiwla i gyfrifo faint o aelodau o staff y câi grŵp eu cyflogi, ac roedd y fformiwla honno wedi'i chreu cyn sefydlu'r Bwrdd Taliadau, yn seiliedig ar nifer yr Aelodau yn y grŵp ac a oedd unrhyw rai ohonynt yn aelodau o Lywodraeth Cymru. Gallai grwpiau hefyd hawlio lwfans ychwanegol i gwmpasu costau staff o ran goramser, hyfforddiant, teithio a thaliadau bonws a gallent benodi un aelod o staff i'r band cyflog 'Cymorth Grŵp Ychwanegol'.

24. Parhawyd â'r lwfans hwnnw ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad gan na chafwyd unrhyw dystiolaeth nad oedd y lefel o gymorth a roddid i grwpiau yn briodol. Rhwng mis Mai 2011 a mis Ebrill 2013, dyranwyd fel a ganlyn:

**Ffigur 2: Lwfansau Cymorth Grwpiau'r Pleidiau Mai 2011 - Ebrill 2013**

| Nifer yr Aelodau yng ngrŵp y blaid | Lwfans ychwanegol fesul grŵp |
|---|---:|
| Tri neu fwy (os oedd y blaid wedi'i chynrychioli yn Llywodraeth Cymru) | £127,390 |
| Rhwng tri a deg Aelod (os nad oedd y blaid wedi'i chynrychioli yn Llywodraeth Cymru) | £199,048 |
| Mwy na deg Aelod (os nad oedd y blaid wedi'i chynrychioli yn Llywodraeth Cymru) | £199,048 a £30,866 yn ychwanegol ar gyfer pob pum Aelod ychwanegol |

### Trefniadau hyblyg

25. Cyflwynwyd nifer o newidiadau ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad i'w gwneud yn bosibl i'r Aelodau drefnu eu staff cymorth yn y ffordd orau i ddiwallu eu hanghenion unigol. Fe'u cyflwynwyd mewn ymateb i dystiolaeth gan Aelodau a'u staff a rhoddir crynodeb ohonynt isod:

- cynnyddu'r swm a ddyrennir i bob un o Aelodau'r Cynulliad ar gyfer staffio o uchafswm o £80,244 yn 2010-11 i uchafswm o £89,000 ar gyfer 2011-12, er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yng nghyflogau staff cymorth y cytunwyd arno gan y Bwrdd ar yr adeg honno;

- dileu’r cyfyngiad ar Aelodau a oedd yn eu rhwystro rhag cyflogi mwy nag un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn fesul band cyflog er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd;

- y gallu i ddefnyddio’r swm sy’n weddill rhwng cyfanswm posibl y gost o gyflogi eu cyfuniad staff o ddewis a £89,000 at nifer o ddibenion, fel costau teithio a goramser staff (hyd at uchafswm o £2,000), y ‘gronfa ymgysylltu’ (hyd at £2,000), costau staff yn sgîl ailstrwythuro neu ddileu swyddi, ac i drosglwyddo arian i Grŵp y Blaid;

- cyfle i ddau neu fwy o Aelodau ‘gronni’ eu cyllideb staffio cyfwerth ag amser llawn yn rhannol neu, yn wir, yn gyfan gwbl, er mwyn atgyfnerthu’r lefel o gymorth, a chyfle i Aelodau ‘drosglwyddo’ rhan o’u lwfans staffio i’w grŵp er mwyn rhoi hwb i’r cymorth a ddarperir yn ganolog;

- cyflwyno gofyniad y dylai pob Aelod newydd gyflogi o leiaf un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i swydd ag iddi elfen ymchwil gref, i’w cefnogi gyda busnes ffurfiol y Cynulliad a chyfrifoldeb cynyddol y Cynulliad fel deddfwrfa;

- creu cronfa ymgysylltu i helpu Aelodau i gael gafael ar arbenigedd allanol ychwanegol y gallai fod ei angen arnynt wrth graffu ar bolisïau neu ddeddfwriaeth, a hynny am gyfnod penodol ac ar dasg neu ddarn o waith penodol, hyd at uchafswm o £2,000 y flwyddyn.

### Yr Aelod Cynulliad fel cyflogwr

26. Mae gan staff cymorth Aelodau’r Cynulliad rôl ganolog wrth gefnogi gwaith yr Aelodau yn y Cynulliad, ac i lawer o etholwyr, y staff cymorth yw wyneb cyhoeddus a phwynt cyswllt y ddeddfwrfa. Yn y Cynulliad, mae 64 o ‘gyflogwyr’ ar wahân yn cynnwys pob Aelod a’r pedwar grŵp gwleidyddol.

27. Yr Aelod Cynulliad yw’r cyflogwr ac ef sy’n gyfrifol am drefnu a rheoli staff. Yn ei rôl fel cyflogwr, mae gan yr Aelod nifer o ddyletswyddau allweddol sy’n ymwneud â chydymffurfio â chanllawiau o ran deddfwriaeth ac arfer gorau mewn amrywiaeth eang o faterion cyflogaeth gan gynnwys:

- recriwtio a chadw cyflogeion;

- rheoli (neu os bydd yn dirprwyo ar ran rhywun, goruchwylio) gweithgareddau o ddydd i ddydd fel rheoli gwyliau blynyddol ac absenoldeb salwch cyflogeion;

- arfarnu perfformiad cyflogeion (gan bennu amcanion a/neu nodau) a nodi/cefnogi datblygiad staff;

- rheoli neu ymateb i unrhyw faterion rheoli perfformiad, materion disgyblu neu gwynion sy’n codi;

- sicrhau iechyd, diogelwch a lles cyflogeion.

28. Mae Aelodau'n cael cyngor ar gyflogaeth ac adnoddau dynol gan y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall y tîm helpu gyda recriwtio, materion disgyblu, cyngor ar gyfraith cyflogaeth ac amrywiaeth o faterion eraill sy'n ymwneud â dyletswyddau Aelodau'r Cynulliad fel cyflogwyr. Er bod cyngor o'r fath ar gael, yn y pen draw, yr Aelodau unigol sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth a chanllawiau arfer gorau.

### Defnyddio'r lwfans staffio

29. Oherwydd yr hyblygrwydd a roddir i'r Aelodau o ran cyflogi staff, mae'r ffordd y trefnir eu swyddfeydd yn amrywio'n fawr. Gellir cymharu pob swyddfa â busnes bach o dan ofal cyflogwr, sef yr Aelod, ac os felly mae'n rhaid iddo allu ymateb yn hyblyg i alwadau fel y bo angen.

30. Mae rhai Aelodau yn dewis penodi rheolwr swyddfa neu weithiwr achos ar y bandiau uchaf, tra bo rhai eraill yn rhoi'r swydd honno i'r cyflogai sy'n canolbwyntio fwyaf ar fusnes y Cynulliad. Mae'n well gan rai Aelodau Cynulliad ganolbwyntio ar ddyletswyddau seneddol eu hunain, gan adael eu staff, yn bennaf, i ymdrin â materion etholaethol a rhanbarthol. Mae eraill yn defnyddio staff cymorth ar gyfer busnes ffurfiol y Cynulliad. Oherwydd y lefel o gymorth gan y gwasanaeth sifil sydd ar gael iddynt wrth gyflawni eu rolau Gweinidogol, mae'r ffordd y mae aelodau'r Cabinet yn defnyddio'r staff a benodir ganddynt i gefnogi eu gwaith fel aelodau etholaethol neu ranbarthol yn amrywio'n sylweddol hefyd. Er bod gan bob aelod o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad deitl swydd contractiol (ac, mewn rhai achosion, amrywiaeth eang o deitlau ategol), deellir yn gyffredinol, gan eu bod yn gweithio mewn swyddfeydd bach, y bydd angen iddynt amldasgio mewn meysydd eraill.

31. Rydym bob amser wedi cydnabod y dylai Aelodau'r Cynulliad gadw'r hyblygrwydd i drefnu eu staff cymorth yn unol â'u blaenoriaethau unigol. Yn wir, fel y nodir uchod, rhoddodd ein Penderfyniad cyntaf mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau nag oedd ganddynt yn flaenorol, fel y gallent gyflogi mwy nag un aelod o staff ar bob un o'r bandiau cyflog. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd yr hyblygrwydd hwn, mae'r amrywiaeth a geir drwy'r holl swyddfeydd wedi bod yn her sylweddol inni wrth geisio gwerthuso'r rolau gwahanol a nodi cymaryddion, fel y trafodir maes o law yn yr adroddiad hwn.

## Y Cynulliad yn 2013

32. Yn dilyn y Refferendwm yn 2011, rhoddwyd pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad mewn 20 o feysydd ac, o ganlyniad, mae cyfrifoldebau'r Aelodau hyd yn oed yn fwy heriol. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), a oedd yn ystyried pwerau'r Cynulliad ar ddechrau 2013, yn nodi uchelgais i gael llawer o bwerau ychwanegol i Gymru. Mae newidiadau i'r tirlun cyfansoddiadol ac effaith hynny ar gapasiti'r sefydliad wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth inni ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae'n anochel y bydd newidiadau cyfansoddiadol o'r fath yn effeithio ar gapasiti Aelodau unigol, yr angen iddynt flaenoriaethu eu hamser, eu llwyth gwaith a'r ffordd y maent yn defnyddio adnoddau staffio.

33. Pwysleisiodd llawer o'r Aelodau a'r staff cymorth a siaradodd â ni yn ystod ein hadolygiad yr heriau y mae'r Cynulliad yn eu hwynebu yn awr ac yn y dyfodol. Gwnaethant nodi bod yn rhaid i Aelodau gael adnoddau priodol i ateb yr heriau hynny, yn enwedig pwerau deddfwriaethol ehangach y Cynulliad a'r posibilrwydd o gael mwy o gyfrifoldeb ariannol. Roedd tystiolaeth gan y Llywydd ac eraill yn egluro – o ystyried pwerau newydd y Cynulliad – y dylem ystyried ehangu capasiti strategol Cynulliad sy'n gyfrifol am graffu ar swmp sylweddol o bolisïau a gwaith deddfwriaethol.

34. Yn y dystiolaeth a gyflwynodd i Gomisiwn Silk, galwodd y Llywydd am gynyddu maint y Cynulliad i 80 o Aelodau, er mwyn galluogi'r Cynulliad i reoli ei gyfrifoldebau cynyddol gymhleth a bod yn barod am yr heriau y mae'n sicr o'u hwynebu os rhoddir mwy o bwerau iddo. Nid yw nifer yr Aelodau'n debygol o gynyddu yn y tymor byr na'r tymor canolig, a rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod Aelodau'n cael adnoddau priodol i ymdrin â'r gofynion y maent hwy a'r Cynulliad yn eu hwynebu yn awr, fel y gallant gyflawni eu rôl yn effeithiol. Safwn wrth y farn, felly, ei bod yn briodol bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n ddeddfwrfa fach â 60 o Aelodau yn unig, mwy o gapasiti o ran staffio na'r deddfwrfeydd datganoledig eraill.

# Methodoleg a Thystiolaeth

## Proses ymgynghorol sy'n seiliedig ar dystiolaeth

### Methodoleg

35. Roedd ein hadolygiad yn drylwyr. Ystyriwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau a thystiolaeth, gan ymgynghori ar bob cam o'r broses. Fel rhan o'r broses, gwnaethom siarad ag Aelodau Cynulliad unigol, staff cymorth unigol, grwpiau o staff cymorth a grwpiau cyfeirio a oedd yn cynrychioli'r naill grŵp o randdeiliaid a'r llall, gan gynnwys Undebau Llafur, a chawsom dystiolaeth ysgrifenedig ganddynt. Edrychom hefyd ar ffactorau economaidd allanol perthnasol sy'n effeithio ar gyflogaeth.

36. Roedd ein penderfyniadau wedi'u seilio ar yr hyn a ganlyn:

- Ystyriaeth ynghylch diben y Cynulliad fel deddfwrfa a'r heriau y mae'r Cynulliad a'i Aelodau yn eu hwynebu;

- Tystiolaeth gan samplau cynrychiadol o 20 o Aelodau (33%) a 58 o aelodau o staff cymorth (20%), naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, ar rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad;

- Dadansoddiad o'r ffactorau economaidd sy'n effeithio ar gyflogau yng Nghymru gan gynnwys polisi cyflogau'r sector cyhoeddus sy'n cyfyngu codiadau i 1% ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol;

- Asesiad o briodoldeb graddfeydd cyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad gan ddefnyddio'r data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (Tachwedd 2012), cymaryddion eraill a nodwyd gan Aelodau a'u staff, a swyddi tebyg yn neddfwrfeydd eraill y DU.

37. Ar ôl dadansoddi'r dystiolaeth, lluniwyd cyfres o gynigion. Ar bob cam o'r broses, rhannwyd ein dull gweithredu a'n canfyddiadau â rhanddeiliaid perthnasol drwy grwpiau cyfeirio Aelodau'r Cynulliad[5] a grwpiau cyfeirio'r staff cymorth[6].

---

[5] *Yn cynnwys Aelod Cynulliad o bob plaid wleidyddol yn y Cynulliad.*
[6] *Yn cynnwys aelod o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad o bob plaid wleidyddol yn y Cynulliad a chynrychiolydd o bob un o'r Undebau Llafur sy'n cynrychioli staff y Cynulliad.*

## Ffactorau allanol


38. Er mwyn inni ddeall y cyd-destun ehangach sy'n effeithio ar y farchnad swyddi yn gyffredinol, ac yn benodol yng Nghymru, ystyriwyd sbardunau economaidd sy'n arbennig o berthnasol i'n gwaith.

39. Ni chaiff chwyddiant ei fesur ar lefel Cymru. Ym mis Mai 2011, y ffigur ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr oedd 4.5% a'r ffigur ar gyfer y Mynegai Prisiau Manwerthu oedd 5.2%. Yr amcangyfrif diweddaraf o'r gyfradd chwyddiant a oedd ar gael inni yn ystod ein hadolygiad oedd y ffigurau ar gyfer mis Hydref 2012, sef 2.75% ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a 3.2% ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ar yr adeg honno, y rhagamcan ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr oedd tua 2.5% yn 2013, a 2.2% yn 2014.

40. Ar ddechrau ein hadolygiad, roedd Llywodraeth y DU wedi gosod terfyn uchaf o 1% ar godiadau cyflog y sector cyhoeddus o fis Ebrill 2011, ac wedi nodi y byddai hyn yn parhau am y ddwy flynedd ddilynol. Ym mis Mawrth 2013, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'r drefn hon yn cael ei hymestyn hyd at 2015-16.

41. Wrth ystyried y darlun economaidd cyffredinol a oedd yn effeithio ar gyflogau, gwnaethom hefyd ddadansoddi'r cynnydd yng nghyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad o gymharu â chyflogau yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Gwnaethom gyfrifo'r cyflog amser llawn canolrifol ar gyfer Cymru a'r DU, gan ddefnyddio'r data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, o fis Tachwedd 2012. Mae'r siart yn dangos y twf ers 2006 o gymharu â'r cynnydd yn y cyflog canolrifol ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a chwyddiant dros yr un cyfnod o amser.

**Ffigur 3: Newid mewn cyflog wedi'i fynegrifo i ddangos newid dros amser[7]**




## Y rolau a gyflawnir gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad

42. Er mwyn inni ddeall y rolau a'r cyfrifoldebau amrywiol a gyflawnir gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, casglwyd tystiolaeth gan amrywiaeth mor eang â phosibl o Aelodau. Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb â sampl gynrychiadol o staff o'r canlynol:

- pob un o grwpiau'r pleidiau;
- cyfuniad o swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol;
- pob un o'r bandiau cyflog;
- amrywiaeth o rolau yn y swyddfeydd.

43. Gwahoddwyd pob un o Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig inni hefyd. Clywsom safbwyntiau gan 33% o Aelodau'r Cynulliad a 21% o'r staff cymorth.

44. Ein nod wrth gynnal yr ymarfer hwn oedd cael dealltwriaeth fanwl o rolau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r lefel o gyfrifoldeb sydd ganddynt a fyddai wedyn yn ein galluogi i'w

[7] *Enillion staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, yn erbyn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, yn y sector cyhoeddus a chyfanswm y DU ynghyd â chwyddiant*

cymharu â rolau tebyg eraill ac asesu a oedd y graddfeydd cyflog yn briodol yn erbyn cyfradd y farchnad ar gyfer cymaryddion.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

45. Un o'r themâu allweddol yr oeddem am edrych arni oedd sut y mae'r Aelodau'n blaenoriaethu'r cymorth yn eu swyddfeydd, yn enwedig o ystyried pwerau deddfwriaethol ehangach y Cynulliad a'r graddau y mae Aelodau'n defnyddio adnoddau ar gyfer materion etholaethol yn erbyn busnes ffurfiol y Cynulliad. Roeddem wedi rhoi nifer o drefniadau ar waith ar ddechrau'r Cynulliad â'r nod o helpu Aelodau gyda'u rolau cynyddol gymhleth, fel cyflwyno'r gronfa ymgysylltu a'r gofyniad i gyflogi aelod o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n gwneud gwaith ymchwil. Roedd y cyfweliadau yn gyfle inni werthuso pa mor effeithiol a defnyddiol oedd y trefniadau hyn a sut oedd yr adnoddau a roddwyd ar waith gennym yn cael eu targedu.

46. Gofynnwyd llawer o'r un cwestiynau i'r Aelodau a'u staff. Fodd bynnag roedd yr ymatebion a gawsom yn amrywio. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd.

**Ffigur 4: Crynodeb o'r dystiolaeth**

| Materion a themâu | Aelodau'r Cynulliad | Staff Cymorth |
|---|---|---|
| Maint y sampl | 20 (33%) | 58 (21%) |
| Trosolwg o rolau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | | |
| Prif weithgareddau gwaith | Busnes y Cynulliad<br>Ymchwil/polisi<br>Gwaith achos | Gwaith achos<br>Ymchwil/polisi<br>Gweinyddu cyffredinol |
| Cytuno bod disgrifiadau swyddi staff cymorth yn adlewyrchu'n gywir y gwaith y maent yn ei wneud. | 79% (11 allan o 14) | 61% (27 allan o 44) |
| Gwasanaeth Ymchwil | | |
| Canran y staff sy'n gwneud gwaith ymchwil fel rhan o'u swydd | 75% (15 allan o 20) | 80% (37 allan o 46) |
| Canran o amser staff sy'n cael ei dreulio yn gwneud gwaith ymchwil sy'n cefnogi busnes ffurfiol y Cynulliad | 50% | 40% |
| Mathau o bapurau briffio ymchwil | Pwnc penodol<br>Dadl/araith<br>Dadansoddi data | Pwnc penodol<br>Gwaith achos<br>Deddfwriaeth |
| Adnoddau ymchwil | Adroddiadau/llyfrau/papurau newydd<br>Arall<br>Rhyngrwyd | Rhyngrwyd<br>Cysylltu â chyrff allanol<br>Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad |
| Defnydd o bapurau briffio ymchwil | Llywio dadl<br>Y Cyfarfod Llawn<br>Gwaith achos | Llywio dadl<br>Deddfwriaeth<br>Ymateb i ymgynghoriad |

| | | |
|---|---|---|
| Rhesymau dros ddefnyddio Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad | Meysydd arbenigol<br>Gwirio ffeithiau ac ystadegau<br>Materion cyfreithiol a chyfansoddiadol | Mater cymhleth<br>Gwirio ffeithiau ac ystadegau<br>Gwaith achos |
| Addysg a sgiliau | | |
| Y sgiliau allweddol sydd eu hangen i fod yn effeithiol yn y rôl | Sgiliau trin pobl<br>Ymchwil/dadansoddi<br>Rheoli amser | Sgiliau trin pobl<br>Sgiliau cyfathrebu<br>Rheoli amser |
| Canran sy'n gwneud adolygiad perfformiad (yn amrywio o adolygiad anffurfiol i adolygiad wythnosol) | 85% (17 allan o 20) | 50% (23 allan o 46) |
| Gwneud penderfyniadau | | |
| Mathau o benderfyniadau | Ymdrin â gwaith etholaethol<br>Penderfynu pa bynciau i ymchwilio iddynt<br>Cyngor ar bolisi | Ymdrin â gwaith etholaethol<br>Blaenoriaethu eu gwaith eu hunain<br>Penderfynu pa bynciau i ymchwilio iddynt |
| Sgôr gyfartalog ar gyfer annibyniaeth yn y rôl (allan o 10) | 6.3 | 7.7 |
| Yr agweddau mwyaf heriol ar rolau | Cyfyngiadau amser<br>Ymdrin â phobl anodd eu trin<br>Blaenoriaethau croes | Cyfyngiadau amser<br>Ymdrin â phobl anodd eu trin<br>Blaenoriaethau croes |

| | | |
|---|---|---|
| Cefndir | | |
| Profiad blaenorol neu sgiliau sy'n berthnasol i rôl staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | Ymchwil/dadansoddi<br>Profiad bywyd<br>Sgiliau trin pobl | Cymwysterau academaidd<br>Profiad gwaith<br>Sgiliau trin pobl |
| Rolau cymaryddion | Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad<br>Swyddi datblygu polisi/ymgynghori<br>Gweithio i Aelod Seneddol | Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad<br>Gweithiwr Achos i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth<br>Swyddi datblygu polisi/ymgynghori |
| Profiad blaenorol neu sgiliau sy'n berthnasol i rôl staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | Ymchwil/dadansoddi<br>Profiad bywyd<br>Sgiliau trin pobl | Cymwysterau academaidd<br>Profiad gwaith<br>Sgiliau trin pobl |
| Fframwaith staffio ehangach | | |
| Pa mor dda y mae'r fframwaith staffio yn diwallu anghenion yr Aelod Cynulliad fel cyflogwr? (allan o 10) | 5.9 | 6.7 |
| Arall | | |
| Sylwadau eraill | Angen mwy o staff/oriau<br>Materion rhanbarthol<br>Mwy o hyblygrwydd yn y fframwaith staffio ac sy'n debygol o fod yn brysurach yn y dyfodol | Diffyg datblygiad gyrfa<br>Angen cefnogaeth i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad gan yr adran Adnoddau Dynol.<br>Swydd heriol/oriau hir |

47. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd gennym ar gyfer yr ymarfer hwn yn tynnu sylw at nifer o faterion:

− Pryder ynghylch diffyg cyfleoedd i symud ymlaen yn eu gyrfa gan nifer sylweddol o'r unigolion y buom yn siarad â hwy, ond teimlai rhai fod hynny'n anochel ac nad oedd disgwyl i'r Bwrdd fynd i'r afael â hyn;

− Dehongliadau gwahanol o ystyr 'ymchwil' a'r sgiliau sydd eu hangen;

− Bod staff a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad wedi'u nodi fel cymaryddion uniongyrchol;

− Anghysondeb o ran cynnal arfarniadau ffurfiol i reoli perfformiad a phennu amcanion, a'r gwahaniaeth rhwng ymatebion yr Aelodau a'r staff cymorth mewn perthynas â hynny;

− Ni chaiff adnoddau staff eu targedu at waith y Cynulliad fel deddfwrfa.

48. Cawsom dystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan Aelodau, Grwpiau'r Pleidiau a grwpiau o staff cymorth. Roedd y materion ychwanegol y tynnwyd sylw atynt yn y dystiolaeth hon yn cynnwys:

- Nid yw'r trefniadau ar gyfer gwyliau blynyddol yn ddigonol, yn enwedig o gymharu â'r rhai a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru;

- Gall y gofyniad i hysbysebu pob swydd yn allanol beri rhwystr i ddatblygiad y rhai a gyflogir eisoes ac efallai nad yw'n yn cynnig gwerth am arian;

- Mae'r graddfeydd cyflog yn gorgyffwrdd yn sylweddol. Roedd hyn yn peri problem i rai gan nad oes gwahaniaeth amlwg rhwng graddfeydd, ond roedd y sefyllfa'n dderbyniol i eraill gan ei bod yn adlewyrchu'r ffaith bod dyletswyddau staff yn aml yn gorgyffwrdd, sy'n nodweddiadol o'r drefn mewn swyddfeydd bach.

## Cymaryddion

### Cymharu â chyflogeion Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru

49. Gwnaethom ofyn i ymatebwyr nodi cymaryddion. Roedd rhai yn teimlo y dylai staff cymorth Aelodau'r Cynulliad gael yr un lefel o gyflog â'r rhai a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru a bod modd cymharu'r rolau a gyflawnir yn uniongyrchol. Yn benodol, cymharwyd rolau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r rhai a gyflogir gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad, ond cyfeiriwyd at rolau eraill hefyd, fel rolau cyswllt â'r cyfryngau a chyfathrebu.

50. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad gael lefel o gyflog sy'n cyd-fynd, yn gyffredinol, â'r gwasanaeth sifil. Caiff y lefelau cyflog ar gyfer swyddi staff Comisiwn y Cynulliad eu pennu'n unol â fframwaith cymhwysedd sy'n nodi'r lefel o gyfrifoldeb a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer

swyddi ar raddfeydd gwahanol. Gwneir penodiadau yn dilyn proses recriwtio gystadleuol strwythuredig fel arfer. Mae'n rhaid i ddeiliaid swyddi gael adolygiad ffurfiol bob chwe mis, sy'n asesu eu perfformiad ac yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r drefn hon yn darparu strwythur clir o ran cyflogau ac yn cynnig cyfleoedd i symud ymlaen yn eu gyrfa os bydd unigolion yn meithrin y sgiliau a'r profiad angenrheidiol.

51. Mae Aelodau'r Cynulliad yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y trefniadau presennol sy'n eu galluogi i drefnu eu staff cymorth yn unol â'u blaenoriaethau unigol a'r gofynion y mae'n rhaid i swyddfeydd bach eu bodloni. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd aelodau o staff ar fandiau cyflog gwahanol yn gwneud dyletswyddau tebyg ym mhob un o swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad. Er enghraifft, gallai gweithiwr achos fod ar unrhyw un o'r graddfeydd cyflog dan sylw. Roedd hynny'n her fawr pan ofynnwyd inni asesu'r graddau yr oedd modd eu cymharu â swyddi yng Nghomisiwn y Cynulliad.

52. Mae'n wir bod modd cymharu'r rolau neu'r tasgau a gyflawnir yn uniongyrchol mewn rhai achosion, yn enwedig yng ngraddfeydd cyflog isaf y Comisiwn lle mae cyflogau eisoes yn gorgyffwrdd. Fodd bynnag, nid felly mae hi yn gyffredinol. Oherwydd hynny, nid oeddem yn teimlo bod achos dros newid cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn gyfan gwbl er mwyn eu cysoni â graddfeydd cyflog staff Comisiwn y Cynulliad ar hyn o bryd.

### Cymharu â deddfwrfeydd eraill

53. Y cymaryddion mwyaf amlwg ar gyfer staff yr Aelodau yw'r rolau sy'n cefnogi cynrychiolwyr etholedig mewn sefydliadau tebyg. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r unig un o bedair deddfwrfa y DU sydd â phwyntiau cyflog yn ogystal â graddfeydd cyflog i aelodau o staff cymorth, a gall cyflogeion ddatblygu drwy'r pwyntiau cyflog bob blwyddyn yn amodol ar berfformiad boddhaol ac adolygiad boddhaol gan yr Aelodau sy'n eu cyflogi. Mae hyn yn golygu y gall gweithwyr gyrraedd brig eu graddfa gyflog dros gyfnod o 5 mlynedd.

54. Nid oes unrhyw raddfeydd cyflog na swyddi penodol yn Senedd yr Alban na Chynulliad Gogledd Iwerddon. Er bod swyddi diffiniedig a bandiau cyflog yn San Steffan, nid oes yr un datblygiad cyflog sicr i'r rhai a gyflogir gan Aelodau Seneddol ag sydd yn y Cynulliad. Fodd bynnag, yn San Steffan, gall Aelodau benodi staff mewn ystod ehangach o fandiau cyflog o fewn eu cyllideb staffio, sy'n golygu eu bod yn gallu penodi staff ar lefel uwch i gynorthwyo â'u dyletswyddau seneddol.

**Ffigur 5: Cymharu cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad â chyflogau staff cymorth Aelodau Seneddol (ac eithrio Llundain) ar adeg yr adolygiad (hyd at fis Ebrill 2013)**

| Cyflogau staff Aelodau Seneddol | |
|---|---|
| Swydd | Ystod cyflog |
| Uwch-gynorthwyydd Seneddol | £30,000 - £39,000 |
| Rheolwr Swyddfa | £26,000 - £37,000 |
| Cynorthwyydd Seneddol | £20,000 - £30,000 |
| Uwch-weithiwr Achos | £19,000 - £28,000 |
| Uwch-ysgrifennydd | £18,000 - £27,000 |
| Gweithiwr achos | £16,000 - £25,000 |
| Is-Ysgrifennydd | £15,000 - £22,000 |

| Cyflogau staff Aelodau'r Cynulliad | |
|---|---|
| Band | Ystod cyflog |
| Cymorth Grŵp Ychwanegol | £30,404 - £37,138 |
| Band 1 | £22,594 - £31,890 |
| Band 2 | £19,296 - £28,287 |
| Band 3 | £17,472 - £23,563 |

55. O ystyried penderfyniad y Cynuliad ym 1999 i gyflwyno pwyntiau cyflog i staff Aelodau, efallai y bydd y disgwyliadau o ran cael codiadau cyflog a gyrfa hir yn uwch ymhlith staff cymorth Aelodau'r Cynulliad na chanolfannau deddfwriaethol eraill y DU  Gall hyn arwain at drafferthion i aelodau o staff a benodwyd yn y gorffennol sydd wedi cyrraedd brig y raddfa gyflog ac nad oes cyfle iddynt gael codiad cyflog.

### Meincnodi yn erbyn cymaryddion eraill

56. Cafodd y dystiolaeth a gawsom gan Aelodau a'u staff ynghylch eu rolau a'u disgrifiadau swydd ei defnyddio hefyd i nodi cymaryddion addas yng Nghymru, a gwnaethom feincnodi cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn erbyn y rhain, er mwyn pennu a oeddent wedi parhau'n gyson, ar y cyfan, â rolau tebyg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

**Ffigur 6: Cyflogau cyfartalog staff cymorth o'u cymharu â data Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2012 ar gyfer swyddi cymaradwy yng Nghymru**

| | Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 31 Hydref 2012 | | Data'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion Tachwedd 2012 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ystod cyflog | Gwir gyflog ar gyfartaledd | Cyflog cymedrig | Cyflog canolrifol |
| Cymorth Grŵp Ychwanegol | £30,404 - £37,138 | £35,219 | £30,663 | £34,618 |
| Band 1 | £22,594 - £31,890 | £30,922 | £28,447 | £30,353 |
| Band 2 | £19,296 - £28,287 | £25,595 | £19,423 | £19,962 |
| Band 3 | £17,472 - £23,563 | £21,218 | £17,295 | £18,891 |

57. Cafodd swyddi eu meincnodi yn erbyn rolau priodol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel yr awgrymwyd gan Aelodau a'u staff. Roedd y rhain yn cynnwys gweithwyr achos y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, gweithwyr achos y gwasanaethau cymdeithasol, ymchwilwyr mewn prifysgolion, swyddogion gweithredol ac is-reolwyr yn y gwasanaeth sifil. Roedd y cymaryddion eraill a enwebwyd gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn cynnwys gweithwyr achos awdurdodau lleol, swyddogion polisi a swyddogion cwynion awdurdodau lleol, a swyddogion polisi a chyfathrebu yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â staff a gyflogir yng Nghomisiwn y Cynulliad.

58. Cafodd y data a gasglwyd ei groesgyfeirio yn erbyn cymaryddion perthnasol o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ar gyfer 2012. Dangosodd yr ymarfer gwirio hwn bod y graddfeydd cyflog presennol yn briodol o hyd, yn y mwyafrif helaeth o achosion, ar gyfer y swyddi a gyflawnir gan staff Aelodau'r Cynulliad o gymharu â rolau tebyg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, fel y gwelir yn ffigur 6 uchod.

## Capasiti a chyfeiriad strategol

59. Drwy gydol ein hadolygiad, clywsom fod gwaith y sefydliad, sy'n mynd yn fwyfwy cymhleth, yn cael ei gyflawni gan nifer gymharol fach o Aelodau, o ystyried pa mor fach yw'r Cynulliad ac o'i gymharu â deddfwrfeydd datganoledig eraill. Mae hynny'n amlwg iawn o ystyried gwaith Pwyllgorau'r Cynulliad, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaith craffu manwl a wneir ar Filiau, polisïau'r llywodraeth a chyllid, ac mae'r gwaith hwnnw'n cael ei gyflawni gan 42 o'r 60 o Aelodau sy'n rhan o'r Cynulliad. Yn ei thystiolaeth i Gomisiwn Silk yn gynharach eleni, dywedodd Llywydd y Cynulliad:

"Mae'r pwysau ar Aelodau yn wahanol iawn i'r pwysau ar aelodau sefydliadau cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU. O reidrwydd, mae gan y rhan fwyaf o bwyllgorau'r Cynulliad gylchoedd gwaith eang iawn, sy'n sicr yn mynd y tu hwnt i bortffolio un Gweinidog, ac maent yn gyfrifol am graffu ar ddeddfwriaeth, polisi a chyllid o fewn y cylchoedd gwaith hynny. Yn ogystal â llwyth gwaith trwm y pwyllgorau, bydd y rhan fwyaf o'r Aelodau yn chwarae rhan weithredol yn y cyfarfod llawn bob wythnos - unwaith eto, mae hyn yn wahanol i seneddau mawr lle y ceir cyfle i holi neu i gymryd rhan mewn datganiad neu ddadleuon yn llai aml. Mae'r rolau niferus, fel deiliaid swyddi a llefarwyr ar ran eu pleidiau, y mae'n rhaid i lawer o Aelodau, yn anochel, eu hysgwyddo mewn deddfwrfa fach, yn ychwanegu at y pwysau ar nifer bresennol yr Aelodau ac yn esgor ar heriau sefydliadol unigryw".

60. Rydym wedi cydnabod y problemau y mae'r Cynulliad yn eu hwynebu o ran capasiti o'r dechrau ac wedi ystyried ffyrdd o wella pethau. Safwn wrth y farn ei bod yn iawn rhoi capasiti staffio i Aelodau'r Cynulliad sy'n fwy na deddfwrfeydd eraill y DU, o ystyried bod llai o Aelodau ar gael i gyflawni swyddogaethau seneddol craidd y Cynulliad, sef deddfu a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

61. Yn ystod ein trafodaethau, gwnaethom siarad ag Arweinwyr Pleidiau, Rheolwyr Busnes a staff o swyddfeydd grwpiau'r pleidiau ynglŷn â'r ffordd y caiff cymorth sy'n gysylltiedig â

busnes craidd y Cynulliad ei ddarparu gan y grŵp canolog a'i ariannu drwy'r cymorth ar gyfer y lwfans grŵp.

62. Mae'r grŵp canolog yn chwarae rôl allweddol ar gyfer pob plaid. Yn achos y gwrthbleidiau, mae hon yn swyddogaeth hanfodol sy'n eu cynorthwyo i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif ac i ddatblygu polisïau amgen. I'r blaid sydd mewn Llywodraeth, mae staff y grŵp yn chwarae rôl wrth gydgysylltu gweithgareddau ei Aelodau yn strategol a gweithredu fel cyswllt rhwng y Llywodraeth ac Aelodau'r meinciau cefn.

63. Mae pob grŵp yn wahanol; mae'r strwythur staffio yn amrywio, yn ogystal â'r ffordd y caiff cymorth ei ddarparu i Aelodau, ond mae'n glir bod cyswllt agos, yn achos y gwrthbleidiau yn enwedig, rhwng y gwaith a wneir gan staff yng ngrŵp y blaid â gwaith craffu'r Cynulliad ar bolisïau a deddfwriaeth. Er mwyn cydgysylltu gwaith staff y grŵp, mae angen arweiniad a chyfeiriad strategol. Os yw'r Cynulliad am weithredu'n effeithiol, rhaid sicrhau bod y grwpiau'n cael adnoddau priodol.

64. Pan luniwyd ein Penderfyniad cyntaf yn 2011, gwnaethom gyflwyno dadl a fyddai'n galluogi Aelodau i gomisiynu gwaith ymchwil mewn cyfnod penodol o amser, sef y Gronfa Ymgysylltu. Roedd uchafswm o £2,000 ar gael, ar yr amod bod arian ar gael o fewn y lwfans staffio. Ein bwriad oedd y byddai'r arian yn galluogi Aelodau i fanteisio ar arbenigedd allanol i'w helpu gyda'u gwaith, er enghraifft er mwyn ymchwilio i faterion polisi, cefnogi'r gwaith o graffu ar fil, neu eu helpu i ddatblygu cynigion ar gyfer deddfwriaeth o'r meinciau cefn. Er mai prin yw'r Aelodau sydd wedi defnyddio'r gronfa, bu'n ddefnyddiol iawn i'r rhai sydd wedi manteisio arni. Mae galluogi Aelodau unigol i fanteisio ar arbenigedd allanol o'r fath yn helpu i wella capasiti'r sefydliad.

65. Er bod yr ymateb a gafwyd i'r cyfleuster hwn yn gadarnhaol, nododd rhai fod y swm sydd ar gael, a'r ffaith bod angen i'r arian ddod o lwfans staffio'r Aelodau, wedi'u rhwystro rhag manteisio arno. Gwnaethom wrando ar y pryderon hyn ac rydym wedi cyflwyno trefniadau mwy hyblyg (Pennod 4).

## Casgliadau

66. Rhoddodd ein hadolygiad sail dystiolaeth inni, a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu nifer o gynigion a gwneud penderfyniadau. Mae crynodeb isod o'r prif faterion a nodwyd.

67. P'un a ydynt yn ymdrin â gwaith achos ac etholwyr neu'n cefnogi busnes ffurfiol yr Aelod yn y Cynulliad, mae staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn chwarae rhan bwysig iawn ac fe'u gwerthfawrogir gan eu cyflogwyr. Mae'r staff yn ymroddedig ac mae ganddynt amrywiaeth eang o sgiliau. Roedd ein hadolygiad yn dangos bod y rhai sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad yn gwneud hynny am eu bod am helpu pobl a gwneud gwahaniaeth. Mewn llawer o achosion, y rhain yw'r pwynt cyswllt cyntaf rhwng y cyhoedd a'r Cynulliad, ac maent yn ymdrin â gwaith achos cymhleth. Bydd eraill yn helpu'r aelodau i graffu ar Filiau cymhleth a mynd ar drywydd materion polisi yn y Cynulliad. Mae'n bwysig felly y gall Aelodau gyflogi unigolion o safon uchel i'w cefnogi.

## Graddfeydd cyflog

68. Gwnaethom feincnodi'r graddfeydd cyflog presennol yn erbyn swyddi â lefel debyg o gyfrifoldeb. Mae cyflogau yn parhau'n gyffredinol gyson â'r cymaryddion addas, felly nid oedd achos dros newid y graddfeydd cyflog yn sylweddol na roi codiadau cyflog sylweddol i bawb yn gyffredinol.

69. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rhoddwyd ystyriaeth ddifrifol i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Aelodau a'u staff, a oedd yn cymharu'r rolau a gyflawnir gan gyflogeion yr Aelodau a staff Comisiwn y Cynulliad yn uniongyrchol, ac yn galw am i'r broses o ddatblygu gyrfa gael ei hwyluso mewn modd tebyg. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd a thebygrwydd, nid yw wedi bod yn bosibl gwneud cymhariaeth gyffredinol oherwydd yr ystod eang o sgiliau, cymwysterau, profiad, lefelau cyfrifoldeb a dyletswyddau penodol sy'n bodoli ymhlith staff yn swyddfeydd yr Aelodau.

## Blaenoriaethu adnoddau a datblygu gyrfa

70. Mae swyddfa pob un o Aelodau'r Cynulliad wedi'i strwythuro'n wahanol. Mae'r Aelodau'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd hwn, ac mae'n hanfodol, yn eu barn hwy, gan ei fod yn eu galluogi i wneud trefniadau staffio sy'n golygu y gallant gyflawni eu blaenoriaethau.

71. Er inni glywed bod pryderon sylweddol ymhlith Aelodau ynghylch capasiti'r Cynulliad a gallu'r Aelodau i ymdrin â gwaith cynyddol gymhleth, mewn llawer o achosion, nid oedd adnoddau staffio yn cael eu targedu at waith y Cynulliad fel deddfwrfa yn y ffyrdd a fwriadwyd gennym yn 2011. Er gwaethaf eu pryderon, mae llawer o Aelodau wedi dewis peidio â dyrannu rhan fawr o'r gyllideb staffio sydd ar gael i waith deddfwriaethol, gwaith polisi a gwaith chraffu. Mae'r dystiolaeth a gafodd y Bwrdd ynghylch capasiti'r Aelodau a'r sefydliad yn dangos bod angen aildrefnu pethau yn y maes hwn, i alluogi'r Cynulliad i ddatblygu mewn ymateb i'r cynnydd yn ei gymhwysedd deddfwriaethol.

72. Rydym yn ymwybodol i drefniadau staffio gael eu rhoi ar waith yn wreiddiol pan oedd y Cynulliad yn gorff corfforaethol, ac nid deddfwrfa fel ag y mae heddiw. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ymroddiad y gweithwyr achos i helpu etholwyr ac i leisio eu pryderon yn y Pwyllgorau a'r Siambr. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu bod adnoddau staffio'n cael eu targedu'n fwy at y maes hwn na chyfrifoldebau strategol newydd y Cynulliad. Er mai mater i'r Aelodau yw penderfynu sut i drefnu eu staff cymorth, rydym yn agored i'r syniad o roi mwy o gyfrifoldebau i staff ym maes gwaith polisi strategol. Wrth lunio'r farn hon, rydym wedi gwrando ar geisiadau staff am gyfleoedd i symud ymlaen yn eu gyrfa ac ar dystiolaeth gan y Llywydd ac eraill ynghylch cymhlethdod gwaith yr Aelodau o ran craffu ar ddeddfwriaeth a dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

73. Mewn ymateb i'r pryder hwn, datblygwyd cynigion a fyddai'n helpu yn y maes hwn, sydd hefyd yn cynnig cyfleoedd datblygu i 'r rhai sydd am symud ymlaen yn eu gyrfa. Rydym hefyd wedi gwella'r cymorth canolog sydd ar gael i grwpiau'r pleidiau fel cam cyntaf. Caiff y cynigion a'r penderfyniadau hyn eu hamlinellu yn y bennod nesaf.

## Rheoli staff

74. Mae gan bob un o'r Aelodau ffordd wahanol o reoli staff yn eu swyddfeydd. Nid oes yn rhaid cynnal arfarniad ffurfiol, ond mae unrhyw godiad blynyddol yn amodol ar gadarnhad yr Aelod Cynulliad bod ei gyflogai wedi perfformio ei ddyletswyddau yn foddhaol.

75. Cynhelir adolygiadau parhaus yn unol ag arfer gorau i reolwyr, a dylid eu cynnal gan bob cyflogwr sy'n gyfrifol am reoli staff. Maent yn ffordd o reoli perfformiad, o nodi meysydd lle y gallai fod diffyg o ran gallu neu, yn wir, o ran enghreifftiau o arfer ardderchog, a dylid eu defnyddio fel sail ar gyfer cytuno ar unrhyw godiadau cyflog. Roedd llawer o'r bobl y gwnaethom gyfarfod â hwy yn ystod ein hadolygiad yn teimlo bod arfarniadau neu adolygiadau ffurfiol yn werthfawr ac yn cynnig cyfle i drafod cryfderau, nodi meysydd i'w datblygu a mynd i'r afael â materion perfformiad yn ôl yr angen.

76. Rydym yn falch o glywed bod llawer o Aelodau a'u staff cymorth sydd â chyfrifoldebau rheoli wedi cyflwyno systemau ar gyfer adolygu perfformiad a gweithgarwch staff. Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth a gasglwyd gennym nad yw pawb yn cynnal y rhain yn systematig.

***Argymhelliad:***

***77. Rydym yn argymell yn gryf, felly, y dylai pob un o Aelodau'r Cynulliad, yn unol â'r arfer gorau o ran Adnoddau Dynol, gyflwyno rhyw fath o system arfarnu neu adolygu ar gyfer eu staff.***

# Cynigion a Phenderfyniadau

*Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'n cynigion a'n penderfyniadau.*

## Trosolwg

78. Llwyddodd y Bwrdd i ddod i benderfyniad mewn sawl maes erbyn mis Ebrill 2013, ond roedd angen trafod rhai cynigion ymhellach. Wrth inni ddadansoddi'r dystiolaeth a datblygu ein cynigion, ymgynghorwyd yn rheolaidd â'r rhai yr oedd ein penderfyniadau'n effeithio arnynt. Galluogodd y broses ailadroddol hon inni brofi ein syniadau ac asesu a oedd cefnogaeth ar gyfer ein cynigion rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2013. Ar sail y dystiolaeth, ac ar ôl ystyried yr heriau y mae'r Cynulliad yn eu hwynebu yn awr ac yn y dyfodol, gwnaethom nifer o benderfyniadau a ddaeth i rym naill ai ar 1 Ebrill 2013 neu 1 Gorffennaf 2013. Nodir y rhain isod:

79. Yn ein Penderfyniad yn 2013, gwnaethom lwyddo i gyflwyno rhoi mesurau a fydd yn helpu pobl i symud ymlaen yn eu gyrfa a gwobrwyo cyfrifoldeb ar lefel staff y grŵp. Mewn meysydd eraill, cafwyd ymatebion croes. Rydym am sicrhau bod unrhyw newidiadau wedi'u cyflwyno'n gywir cyn y Pumed Cynulliad a byddwn yn parhau i ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff ynghylch y ffordd ymlaen.

## Codiad cyflog o 1%

80. Gwnaethom gymharu'r graddfeydd cyflog presennol â chymaryddion addas yng Nghymru er mwyn pennu a oedd cyflogau wedi parhau'n gyffredinol gyson â rolau tebyg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gadarnhau mai dyna oedd yr achos o hyd. Mae polisi cyflog y sector cyhoeddus wedi cyfyngu codiadau cyffredinol i 1%.

***Penderfyniad:***

***81. Yn sgîl hynny, a'n hasesiad o briodoldeb y graddfeydd cyflog presennol ar gyfer y swyddi a gyflawnir, rhoddwyd codiad cyflog o 1% i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14. Rhoddwyd hyn ar waith ym mis Ebrill 2013 (gweler ffigur 6) ac fe'i derbyniwyd gan yr Aelodau a'u staff. Byddwn yn adolygu'r penderfyniad hwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol er mwyn cytuno ar y codiad cyflog ar gyfer 2014-15. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14, mae pob un o Aelodau'r Cynulliad yn cael lwfans staffio o £89,890.***

**Ffigur 7: Graddfeydd cyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2013-2014**

| | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Grŵp Ychwanegol | £30,708 | £32,281 | £33,936 | £35,676 | £37,509 |
| Band 1 | £22,820 | £24,866 | £27,101 | £29,541 | £32,209 |
| Band 2 | £19,489 | £21,437 | £23,587 | £25,955 | £28,570 |
| Band 3 | £17,647 | £19,014 | £20,488 | £22,080 | £23,799 |

### Recriwtio ac adolygiadau cyflog

82. Ar ddechrau'r Cynulliad, gwnaethom gyflwyno gofyniad y dylai pob swydd wag yn swyddfeydd yr Aelodau gael ei llenwi drwy broses recriwtio agored, gan gynnwys dangos yr hysbyseb ar fewnrwyd y Cynulliad am o leiaf wythnos. Ein nod oedd sicrhau bod y broses o benodi pobl i swyddi yn swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad yn dryloyw. Er inni gael rhywfaint o adborth cadarnhaol ynglŷn â'r broses hon, gan roi hygrededd i'r arferion a fabwysiedir gan Aelodau, gwnaethom hefyd glywed y gall fod achlysuron pryd y byddai'n fuddiol ystyried cynnal proses recriwtio fewnol, i ddechrau, ar gyfer unigolion sydd â'r cymwysterau addas. Byddai hyn yn rhoi mwy o gyfle i staff gael eu dyrchafu, yn cyflymu'r broses recriwtio ac yn sicrhau gwell gwerth am arian.

***Penderfyniad:***

***83. Ym mis Ebrill 2013, mewn ymateb i'r adborth hwn, gwnaethom roi mwy o hyblygrwydd i Aelodau hysbysebu swyddi'n fewnol i ddechrau, i'w staff eu hunain neu o fewn grŵp y blaid, mewn achosion lle y gallai fod ymgeisydd addas ar gyfer y swydd. Rhaid i unrhyw benodiad barhau i fod yn amodol ar gyfweliad a phroses asesu ffurfiol.***

***84. Bellach, gall yr Aelodau hefyd gynnal adolygiad cyflog gydag aelod newydd o staff ar ôl y cyfnod prawf o chwe mis y mae'n rhaid i bob aelod o staff ei basio'n llwyddiannus cyn cael ei benodi'n barhaol. O ganlyniad, os bydd aelod o staff cymorth wedi'i benodi o'r pwynt cyflog cyntaf yn ei fand, a'i fod, yn amodol ar dystiolaeth adolygiad ffurfiol, yn perfformio'n foddhaol, gall yr aelod o staff hwnnw symud ymlaen i'r pwynt nesaf ar y gyfradd gyflog. Dim ond i benodiadau newydd y bydd hyn yn gymwys, pan fo'r cyflogai wedi dechrau yn ei swydd ar bwynt cyflog isaf y band cyflog. Cynhelir unrhyw adolygiad dilynol yn flynyddol ar ddyddiad yr adolygiad chwe mis.***

### Gwyliau blynyddol

85. Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, gwnaethom gyflwyno contractau safonol i staff yr Aelodau er mwyn cysoni'r telerau ac amodau. Mae aelodau o staff sydd wedi ymuno ers hynny'n gweithio'n unol â thelerau'r contract safonol, ac mae llawer o aelodau o staff a oedd eisoes wedi'u cyflogi hefyd wedi'u trosglwyddo i'r contract hwn. Fodd bynnag, mae rhai aelodau o staff yn dal ar y telerau ac amodau a oedd ar waith cyn etholiad mis Mai 2011.

86. Yn ystod ein hadolygiad, cawsom dystiolaeth gan lawer o staff cymorth yn galw am gynyddu nifer y diwrnodau o wyliau blynyddol yn y contract safonol o 28 i 31 diwrnod. Teimlwyd y byddai cynyddu gwyliau yn y modd hwn yn galluogi'r rhai sydd wedi bod yn amharod i ymrwymo i'r contract safonol, am fod eu trefniadau gwyliau blynyddol yn amrywio, i arwyddo contract safonol diwygiedig â threfniadau gwell o ran gwyliau.

87. Ers 1 Ebrill 2013, mae staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sydd wedi llofnodi contract safonol yn gymwys i gael 31 diwrnod o wyliau blynyddol. Mae'r nifer gynyddol o ddiwrnodau'n adlewyrchu'r ffaith bod adegau pan na all staff cymorth sy'n gweithio yn swyddfeydd y Cynulliad yn Nhŷ Hywel ddefnyddio holl gyfleusterau'r adeilad, yn enwedig dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Fodd bynnag, Aelodau Cynulliad unigol a'u staff fydd yn gorfod penderfynu pryd, os o gwbl, y gellir cymryd y diwrnodau ychwanegol o wyliau.

***Penderfyniad:***

***88. Cyflogwyr unigol yw Aelodau'r Cynulliad, ac mae penderfynu a ddylid ymestyn cyfnod y gwyliau ai peidio yn fater iddynt ymdrin ag ef drwy ymgynghori â'u staff.***

## Cynigion a phenderfyniadau - gwella capasiti'r Cynulliad

89. Yn ogystal â'r newidiadau uchod a roddwyd ar waith ar 1 Ebrill 2013, am y rhesymau a nodir ar ddechrau'r bennod hon, gwnaethom barhau i ymgynghori ar nifer o gynigion eraill.

### Uwch Gynghorwr

90. Mae ein holl waith wedi canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng y lefel o gyfrifoldeb sydd gan aelodau o staff a'u lefel cyflog. Dangosodd ein gwaith dadansoddi nad oedd achos, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, dros gyflwyno codiadau cyffredinol o dros 1%. Fodd bynnag, gwnaethom gydnabod y gallai fod achos dros roi cyflogau uwch am swyddi sy'n cyflawni mwy o gyfrifoldebau. Yn ystod ein hadolygiad, cawsom dystiolaeth gan lawer o staff ac Aelodau fod diffyg datblygiad gyrfa yn peri pryder sylweddol.

91. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Llywydd ac eraill ynghylch effaith cael pwerau deddfwriaethol llawn ar y Cynulliad, rydym yn cydnabod y cynnydd yng nghyfrifoldebau'r Aelodau, a hynny mewn deddfwrfa â 60 o Aelodau yn unig. Ymgynghorwyd ar gynnig i sefydlu swydd Uwch Gynghorwr i ddarparu cymorth ar lefel uchel i Aelodau unigol ar faterion o bwys strategol yn lleol ac yn genedlaethol, ac mewn perthynas â busnes ffurfiol y Cynulliad a'i bolisïau. Rhoddir amlinelliad o'r rôl yn Atodiad A. Byddai'r rôl yn galluogi unigolion i benodi swydd uwch yn eu swyddfeydd, yn debyg i rôl yr Uwch Gynorthwyydd Seneddol i Aelodau Seneddol yn San Steffan. Yn unol â'r polisi recriwtio cyffredinol, roedd ein cynnig yn cynnwys yr angen i swyddi o'r fath gael eu llenwi drwy broses benodi gadarn, sy'n dryloyw ac sy'n cynnig gwerth am arian.

*Penderfyniad:*

*92. Ymgynghorwyd ag Aelodau a staff cymorth ynghylch y broses arfaethedig. Er bod llawer yn croesawu'r cynnig hwn ac yn teimlo y byddai o fudd iddynt fel Aelodau, ac i'r Cynulliad fel deddfwrfa, nid oedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. O'r herwydd, nid yw'n fwriad gennym roi'r cynnig hwn ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ond gellir dychwelyd ato i'w ystyried yn y dyfodol.*

*93. Mae ein cyfiawnhad dros y cynnig hwn yn glir a safwn yn gadarn wrth y farn y dylid gwella capasiti'r Cynulliad a'i Aelodau er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau cymhleth newydd.*

### Y Gronfa Polisi ac Ymchwil

94. Yn ychwanegol at ystyried creu swydd newydd, ymgynghorwyd ar gynnig i ymestyn defnydd y Gronfa Ymgysylltu er mwyn i staff yr Aelodau, yn hytrach nag arbenigwyr allanol, neu'n ogystal â hwy, allu gwneud gwaith ymchwil strategol o fewn cyfnodau penodol o amser. Ein bwriad oedd y byddai hyd at £2,000 y flwyddyn ar gael i bob Aelod at bwrpas gwaith ymchwil SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n amserol) neu waith polisi a gomisiynwyd yn fewnol neu'n allanol. Byddai'r swm hwnnw'n ychwanegol at gyllidebau staffio'r Aelodau ac yn rhoi cyfle i staff ymgymryd â rhagor o waith prosiect cymhleth a fyddai'n rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu, yn ogystal â chael eu talu am y gwaith. Yn y gorffennol, roedd yr Aelodau'n gallu comisiynu gwaith ymchwil allanol ar yr amod bod arian o'u cyllideb staffio yn weddill, ond byddai'r swm hwn yn ychwanegol at hynny.

*Penderfyniad:*

*95. Er bod llawer yn croesawu'r awgrym hwn ac yn teimlo y byddai'n fuddiol, mynegwyd llawer o bryderon ynglŷn â'r cynnig, a dywedodd rhai o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad fod perygl iddo arwain yn ôl at ddiwylliant o daliadau bonws, a oedd yn negyddol yn eu barn hwy. Yn unol â'r adborth a gafwyd, ni roddwyd trefniadau ar waith i alluogi staff i gael taliadau am waith o'r fath ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.*

*96. Gwnaethom fwrw ymlaen â'r cynnig i drefnu bod cronfa ychwanegol ar gael i Aelodau ei defnyddio i gomisiynu gwaith ymchwil allanol. Bydd cyllid ychwanegol o £2,000 ar gael i bob Aelod, ac mae'n newid sylweddol gan nad yw'n dibynnu mwyach ar y swm sy'n weddill o'r lwfans staffio. Enw'r gronfa yw'r Gronfa Polisi ac Ymchwil, er mwyn nodi ei phwrpas yn glir. Mae'r gronfa ar gael i ariannu gwaith ymchwil allanol i gefnogi datblygiad polisi, archwilio materion o bwys yn etholaethau neu ranbarthau'r Aelodau, neu graffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid. Caiff Aelodau gyfuno arian o'r gronfa i gomisiynu darnau mwy sylweddol o waith, yn unol â'r arfer gorau o ran caffael.*

*97. Byddwn yn monitro'r defnydd o'r Gronfa Polisi ac Ymchwil, a'i gwerth o ran denu arbenigedd ychwanegol, i gynorthwyo Aelodau dros y flwyddyn nesaf, gan adolygu gweithrediad y gronfa newydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.*

98. ***Gall grwpiau'r pleidiau hefyd gomisiynu gwaith ymchwil allanol yn y ffordd hon. Ni fydd y terfyn uchaf o £2,000 yn gymwys i'r grwpiau, ond bydd eu gallu i gomisiynu gwaith yn amodol ar yr arian sy'n weddill ganddynt o'r Lwfans Cymorth i Grwpiau.***

### Cymorth gwell i Grwpiau

99. Yn ogystal ag awgrymu ffyrdd o gynyddu'r cymorth sydd ar gael i Aelodau Cynulliad unigol, datblygwyd cynigion gennym hefyd i wella capasiti grwpiau'r pleidiau. Mae'r grŵp canolog yn chwarae rôl allweddol ar gyfer pob plaid. Yn achos y gwrthbleidiau, mae hon yn swyddogaeth hanfodol sy'n eu cynorthwyo i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif ac i ddatblygu polisïau amgen. Ar gyfer plaid sydd mewn Llywodraeth, mae staff y grŵp yn chwarae rôl wrth gydgysylltu gweithgareddau ei Aelodau yn strategol a gweithredu fel cyswllt rhwng y Llywodraeth ac Aelodau'r meinciau cefn. Pennwyd cyllidebau'r grŵp canolog ar gyfer staffio gan Gomisiwn y Cynulliad yn y Trydydd Cynulliad, ac nid yw'r rhain wedi newid ers sefydlu'r Bwrdd. Credwn yn gryf fod y grwpiau yn chwarae rôl hollbwysig o ran sicrhau bod y Cynulliad yn gweithredu'n effeithiol fel deddfwrfa.

100. Cydgysylltir gweithgareddau pob grŵp, boed yn rhan o'r Llywodraeth neu'n wrthblaid, gan Bennaeth Staff neu swyddog cyfatebol. Mae gan y swyddi hyn fwy o gyfrifoldeb nag unrhyw swyddi eraill o fewn y grwpiau ac ym mhob rhan o'r trefniadau staffio. Maent yn darparu cefnogaeth strategol i Arweinwyr Plaid, Rheolwyr Busnes a holl Aelodau'r grwpiau, gan oruchwylio gweithrediad a gweithgareddau swyddfeydd y grwpiau. Maent fel arfer yn rheoli tîm o ymchwilwyr a gwaith y grŵp mewn perthynas â'r cyfryngau. Mae ganddynt lefel uchel o gyfrifoldeb, sydd wedi cynyddu ers i'r Cynulliad gael rhagor o bwerau a dod yn ddeddfwrfa lawn. Ar sail yr adborth a gawsom gan Arweinwyr y Pleidiau, ac ar ôl meincnodi'r swyddi hyn yn erbyn swyddi allanol, mae natur gymhleth y swyddi hyn yn golygu bod modd cymharu'r lefel o gyfrifoldeb sydd ynglwm wrthynt, ac rydym yn sicr na thalwyd cyflogau digonol, hyd yma, ar gyfer y swyddi hyn.

***Penderfyniad:***

101. ***Ym mis Mehefin 2013, cynyddwyd y gyllideb Cymorth i Grwpiau ar gyfer pob plaid yn unol â'r tabl isod. Gwnaed hyn i atgyfnerthu eu capasiti o ran polisi ac ymchwil ac i'w galluogi i benodi staff ar lefel uwch i ymgymryd â gwaith cymhleth sy'n gysylltiedig â gwaith y Cynulliad fel deddfwrfa. Mae gan bob grŵp gyllideb ddigonol bellach i'w alluogi i benodi Pennaeth Staff, swydd Cymorth Grŵp Ychwanegol a swydd ar Fand 2. Mae nifer y penodiadau Band 1 y gall pob grŵp eu gwneud yn dibynnu ar faint y grŵp, ond bydd yn cynyddu'n unol â nifer yr Aelodau sydd mewn grŵp. Mae gan bob grŵp hefyd falans sy'n weddill i dalu am bethau fel costau teithio staff, goramser a'r Gronfa Polisi ac Ymchwil.***

102. Er bod ein cyfrif ni wedi'i seilio ar y model canlynol, ni fwriedir iddo orfodi unrhyw strwythur staffio penodol ar grwpiau'r pleidiau. Maent yn cadw'r hyblygrwydd i strwythuro swyddfa'r grŵp yn unol â'u hanghenion ac i benodi staff i'r swyddi sy'n bwysig iddynt, ar bob band cyflog, ond rydym yn disgwyl i'r arian ychwanegol gael ei dargedu at waith polisi ac ymchwil sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Cynulliad fel deddfwrfa.

**Ffigur 8: Cymorth i Grwpiau 2013-14**

| Maint y Grŵp | Pennaeth Staff | Cymorth Grŵp Ychwanegol | Band 1 | Band 2 | Band 3 | Lwfans Grŵp 2012-13 | Lwfans Grŵp 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 Aelod neu fwy, gydag Aelod yn Llywodraeth Cymru | 1 | 1 | 1 | 1 | - | £127,390 | £144,598 |
| Rhwng 3 a 10 o Aelodau nad ydynt yn y Llywodraeth | 1 | 1 | 3 | 1 | - | £199,048 | £220,125 |
| Rhwng 11 a 15 o Aelodau nad ydynt yn y Llywodraeth | 1 | 1 | 4 | 1 | - | £199,048, a £30,866 ar gyfer pob 5 Aelod ychwanegol | £255,364 |

103. Gwnaethom gyflwyno band cyflog newydd ar gyfer Penaethiaid Staff. Mae'r band hwn 10% yn uwch na chyflog y Cymorth Grŵp Ychwanegol ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod gan ddeiliaid y swyddi hyn fwy o gyfrifoldebau, yn enwedig yn sgîl y pwerau ychwanegol a roddwyd i'r Pedwerydd Cynulliad. Dim ond un swydd amser llawn, neu swyddi cyfwerth ag amser llawn, a ariennir yn y modd hwn fesul grŵp plaid.

**Ffigur 9: Band Penaethiaid Staff 2013-2014**

| | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth Staff | £33,779 | £35,509 | £37,330 | £39,244 | £41,260 |

# Tua'r Pumed Cynulliad

## Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

104. Roedd ein hadolygiad o gyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r lwfans staffio cyffredinol sydd ar gael i gefnogi Aelodau'r Cynulliad yn drwyadl ac yn gadarn. Gwnaethom ymgynghori'n helaeth, ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth a datblygu cynigion yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael inni. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed.

105. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2013-14) y mae'r codiad cyflog y cytunwyd arno ym mis Ebrill 2013. Bydd trafodaethau ar y pecyn ar gyfer 2014-15 yn dechrau ym mis Ionawr 2014 a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol wrth ystyried y codiad ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd gennym hefyd y bydd rhai meysydd lle y byddwn yn monitro effaith ein penderfyniadau ac yn adolygu'r cynigion nad oedd pawb yn gyffredinol yn eu cefnogi.

106. Mae capasiti'r sefydliad a'i Aelodau yn parhau i beri pryder. Byddwn yn parhau i ymchwilio i syniadau a fydd yn cynyddu'r capasiti hwn. Yn benodol, byddwn yn gwerthuso'r ffordd y mae'r Aelodau wedi defnyddio'r Gronfa Polisi ac Ymchwil, ac a yw hynny wedi cyflawni ei ddibenion. Byddwn hefyd yn ailystyried ein cynigion i gael rôl Uwch Gynghorwr yn swyddfa pob Aelod. Yn ein barn ni, gan fod y Cynulliad yn ddeddfwrfa gymharol fach, rhaid inni sicrhau bod yr adnoddau a roddir ar waith yn galluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau mor effeithiol â phosibl, ac mae'r lwfans staffio yn rhan allweddol o hynny.

107. Cynhelir etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016. Wrth inni baratoi ar gyfer y Pumed Cynulliad, byddwn yn parhau i siarad â'r Aelodau a'u staff ac ystyried ffactorau eraill sy'n effeithio ar y Cynulliad fel deddfwrfa. Mae'n debygol y bydd trafodaethau pellach ynghylch maint y sefydliad, ei bwerau, ac effaith y rhain ar effeithiolrwydd yr Aelodau. Ein rôl ni yw sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau yn y tymor byr a'r tymor canolig. Rydym yn disgwyl y bydd adnoddau yn parhau i gael eu targedu at ddibenion strategol y Cynulliad.

# Uwch Gynghorwr i Aelod Cynulliad

### Uwch Gynghorwr i Aelod Cynulliad – Disgrifiad swydd enghreifftiol (gweler paragraff 90)

Prif swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae'r gwaith o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, trafod a datblygu syniadau polisi, a cheisio gwella cynigion deddfwriaethol, cynigion polisi a chynigion gwariant drwy graffu arnynt, yn digwydd yn bennaf drwy fusnes ffurfiol y Cynulliad, yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau. Y bwriad yw y bydd y cyfle i Aelod Cynulliad gyflogi Uwch Gynghorwr yn ychwanegu dimensiwn arall i'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith hwn.

Bydd natur benodol y swydd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Aelod sy'n cyflogi ac unrhyw swyddi neu rolau eraill y mae'r Aelod hwnnw'n eu cyflawni yn y Cynulliad. Er y bydd y disgrifiadau swyddi unigol yn amrywio, mae'n debygol y byddant oll yn cynnwys cyfran sylweddol o'r tasgau a'r cyfrifoldebau a ganlyn, sy'n dangos y mathau a'r lefelau o dasgau a chyfrifoldebau a ragwelir.

Efallai y bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldebau rheoli, yn dibynnu ar strwythur swyddfa'r Aelod neu'r Grŵp sy'n ei gyflogi.

Gall Uwch Gynghorwyr i Aelodau Cynulliad gael eu cyflogi gan Aelodau unigol, gan fwy nag un Aelod ar y cyd, neu gan grwpiau'r pleidiau. Mae'n bosibl y bydd y cyflogai yn gweithio yn y Cynulliad Cenedlaethol neu yn swyddfa etholaethol neu ranbarthol yr Aelod sy'n ei gyflogi, yn unol ag anghenion a blaenoriaethau'r Aelod hwnnw.

### Cyfrifoldebau a thasgau enghreifftiol

- Rhoi cyngor arbenigol fel arbenigwr mewn maes penodol;
- Rhoi cyngor ar faterion polisi, cyllid a deddfwriaeth gerbron y Cynulliad, ac unrhyw agwedd arall ar fusnes y Cynulliad;
- Canfod materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i fusnes y Cynulliad, a briffio'r Aelod yn unol â hynny;
- Cyfrannu at y broses o feddwl am bolisïau a'u cynllunio, gan gynnwys materion sy'n deillio o waith achos yr Aelod neu unrhyw weithgarwch arall yn yr etholaeth neu ranbarth;

- Llunio papurau polisi i gefnogi ystyriaethau polisi hirdymor ar gyfer yr Aelod a/neu'r Grŵp;
- Datblygu strategaeth er mwyn i'r Aelod ymdrin â materion etholaethol/rhanbarthol sy'n arbennig o bwysig ar lefel leol neu genedlaethol;
- Cydgysylltu â grwpiau buddiant allanol, gan gynnwys rhai yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod, i helpu'r Aelod i gyfrannu at fusnes y Cynulliad;
- Cynnig cymorth o ran cyfathrebu strategol a materion cyhoeddus;
- Paratoi a chyflwyno deunydd yn unol â therfynau amser tyn i helpu'r Aelod gyda busnes ffurfiol y Cynulliad;
- Ysgrifennu areithiau, llunio cwestiynau a gwelliannau a gwaith ymchwil cysylltiedig, gan gynnwys ychwanegu cynnwys at ddeunydd a baratowyd gan staff Comisiwn y Cynulliad ac eraill;
- Cyflawni tasgau ymchwil cymhleth a gwerthuso a dadansoddi canlyniadau;
- Cydgysylltu â staff Comisiwn y Cynulliad ac eraill i fanteisio i'r eithaf ar y cyngor a'r arbenigedd sydd ar gael eisoes.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu dangos:

- barn a meddwl clir o ran dyranu adnoddau ac ymateb i alwadau sy'n cystadlu a'i gilydd, a'r gallu i wneud penderfyniadau doeth mewn amgylchedd gwleidyddol sensitif sy'n newid yn gyflym;
- sgiliau cyfathrebu, sensitifrwydd a'r gallu i greu argraff er mwyn ennyn ymddiriedaeth Aelodau ac uwch swyddogion eraill;
- sgiliau dadansoddi ac ymchwil lefel uchel er mwyn deall deunydd deddfwriaethol a'i drafod yn feirniadol;
- sgiliau ardderchog o ran drafftio a chyflwyno er mwyn cyfleu materion cymhleth ac opsiynau polisi yn glir, yn gryno ac yn gywir, ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- lefel uchel o ymwybyddiaeth wleidyddol a'r gallu i gysoni'r hyn a gynhyrchir ag anghenion a blaenoriaethau'r Aelod;
- deall gwaith y Cynulliad Cenedlaethol a'r Aelod Cynulliad;
- y gallu i gydweithio fel rhan o dîm bach.

# Cylch Gwaith ac Aelodau'r Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.*

Corff statudol annibynnol yw'r Bwrdd, sy'n gyfrifol am y canlynol:

- sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael lefel o gyflog sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn rhwystro pobl sydd â'r ymroddiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol yn Aelodau Cynulliad;
- sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau; a
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

Wrth gyflawni ei gylch gwaith, gofynnir i'r Bwrdd ymddwyn mewn ffordd agored a thryloyw ac ymgynghori â'r rhai y mae'r gwaith o arfer ei swyddogaethau yn debygol o effeithio arnynt, os bydd hynny'n briodol ym marn y Bwrdd.

Cafodd y Bwrdd ei benodi drwy broses recriwtio deg ac agored:



**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid**
Ymddiswyddodd y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid o'i rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Taliadau ym mis Medi 2013. Penodwyd Sandy Blair CBE yn Gadeirydd Dros Dro i'r Bwrdd ym mis Hydref 2013
Gwleidydd, newyddiadurwr ac academydd o'r Alban. Cafodd ei urddo'n farchog yn 2012. Mae'n Gyfrin Gynghorwr, yn gyn-Aelod Seneddol, yn gyn-Aelod o Senedd yr Alban, ac yn gyn-Lywydd Senedd yr Alban a Chadeirydd ei Chorff Corfforaethol. Ef yw Arglwydd Raglaw Clackmannanshire. Bu'n gweithio am 15 mlynedd mewn rhyfeloedd a thrychinebau fel cyfarwyddwr y Groes Goch Ryngwladol/y Cilgant Coch. Mae ei benodiadau'n cynnwys: Comisiynydd Etholiadol y DU ac Athro gwadd ym Mhrifysgol Glasgow a Phrifysgol Stirling. Yn ddiweddar, arweiniodd adolygiadau strategol o'r drefn lywodraethu yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban.



**Sandy Blair CBE**
**(Cadeirydd Dros Dro)**

Cyn-gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (ymddeolodd yn 2004). Roedd yn brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ef oedd Llywydd Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE) rhwng 1999 a 2000. Mae wedi ymgymryd â nifer o benodiadau cyhoeddus ac wedi bod yn ymddiriedolwr ar sawl corff cyhoeddus, fel cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy a rolau gyda'r Eglwys yng Nghymru. Mae wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.



**Mary Carter**

Ymddeolodd o'i swydd fel Partner yn KPMG ym mis Medi 2008 ac mae'n aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog ar hyn o bryd, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ynghylch cyflogau'r fyddin a lwfansau a thaliadau digolledu. Mae'n gyfreithwraig sydd wedi arbenigo am dros 20 mlynedd ar gynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt ynghylch cyflogau a chymhellion ariannol i gyfarwyddwyr/uwch-reolwyr a materion cysylltiedig o ran llywodraethu a threthi.



**Stuart Castledine**

Cyfrifydd siartredig sydd wedi cyflawni nifer o rolau ariannol a rheoli cyffredinol i Allied Dunbar, Chartered Trust, a Chymdeithas Adeiladu Bristol & West, cyn cael ei benodi fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn ddiweddar, mae wedi ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan helpu i sefydlu mentrau a chynghreiriau ar y cyd yn ogystal â gweithio fel cyfarwyddwr i drawsnewid nifer o sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau ariannol. Mae'n un o gyfarwyddwyr anweithredol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd.



**Yr Athro Monojit Chatterji**

Academydd â phrofiad ym maes polisi cyhoeddus yw'r Athro Monojit Chatterji, ac mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil ar bynciau fel yr elfennau sy'n llywio cyflogau yn y sector cyhoeddus a rôl yr undebau llafur. Ar hyn o bryd, mae'n Gymrawd ac yn Gyfarwyddwr Astudiaethau yng Ngholeg Sidney Sussex, Caergrawnt, ac yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Economeg Coleg Trinity Hall, Caergrawnt. Ef yw Cadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achosion Brys y DU (y corff sy'n negodi cyflogau). Yn y gorffennol, bu'n Isgymrawd ac yn Athro ym maes Economeg Gymwysedig ym Mhrifysgol Dundee. Mae wedi bod yn aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ynghylch cyflogau, amodau, a threfniadau llywodraethu ar gyfer athrawon ysgol a phrifathrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyn-aelod o Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, sy'n ystyried materion trawsbynciol o ran cyflogau yn y sector cyhoeddus.